

# Cynllun Cyflawni Mynediad Cefn Gwlad 2021-2022



Darperir y cynllun hwn i gynghori ar brosiectau sy'n cael eu gweithredu er mwyn cyflawni [Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad Sir Fynwy](#). Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddarw wrth i brosiectau ac adnoddau newid.

## **Crynodeb**

Roedd 2021 - 22 yn flwyddyn arall o gyfnodau clo a rheolau Covid ac mae hynny wedi effeithio ar gyflawni. Aeth y Tîm hefyd trwy ychydig o newidiadau. Fe gawsom Swyddog Gorfodi newydd a Swyddog Hawliau Tramwy newydd yn lle'r un blaenorol. Dewisodd y Warden Safle Cefn Gwlad i ymddeol yn rhannol, a chafodd ei swydd ei diwygio i fod yn Swyddog Rheoli Mynediad Cefn Gwlad. Mae'r swydd hon bellach yn swydd sy'n cael ei rhannu gan ddau swyddog. Mae'n ymgymryd â rheoli'r tîm gwirfoddoli a chynnal a chadw. Mae swydd y Swyddog Hawliau Tramwy wedi bod yn wag ers Ionawr 2022 gan fod deiliad y swydd wedi ei secondio dros dro i'r swydd Swyddog Mynediad Rhanbarthol ar gyfer darparu Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent.

**Cynnwys y Gymuned** – Yn Ch1 cafwyd trafodaethau ynghylch a fyddai grwpiau'n ailgychwyn. Dechreuodd 9 grŵp yn Ch1 sydd i lawr ar niferoedd cyn Covid, ond erbyn Ch4 roeddem yn ôl i 11 grŵp (gyda mwy yn mynegi diddordeb mewn ymuno). Mae grŵp Penallt wedi bod yn datblygu eu taith gerdded gylchol ac yn gosod arwyddion. Mae Pennarth yn cynnal grwpiau gwaith eto i glirio ac arwyddo hawliau tramwy yn eu hardal. Cynhaliodd Cyfeillion Dolydd y Castell grwpiau gwaith yn y Goedlan (plannu coed a ffensio) ac roeddent wedi hwyluso ymweliadau ysgol. Cynhaliodd Cyfeillion Parc Cefn Gwlad Rogiet wiriadau safle a chasglu sbwriel. Fe wnaeth pencampwyr sbwriel Warren Slade hefyd fynd ati i gasglu sbwriel yn y gymuned. Cynhaliwyd hyfforddiant gwirfoddolwyr a rhai grwpiau gwaith hefyd. Mae teithiau tywys hefyd wedi aildechrau. Yn bwysig iawn, paratowyd adroddiad ar gyfer y Cabinet a chais am Swyddog Cysylltiadau Cymunedol llawn amser i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli cefn gwlad/cyfathrebu, a helpu i gynnal neu wella nifer y problemau â blaenoriaeth isel a ddatryswyd ar y rhwydwaith hawliau tramwy.

**Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Safleoedd Cefn Gwlad a Gynhelir yn Dda** - Derbyniodd Dolydd y Castell Wobr y Faner Werdd, gan adlewyrchu ei phwysigrwydd i'r gymuned leol. Dangosodd data cyfrif fod hawliau tramwy cyhoeddus a'n safleoedd wedi parhau i gael eu defnyddio gan fwy o'r boblogaeth leol nag oedd cyn Covid. Mae hyn felly wedi golygu cynnydd yn nifer y problemau a adroddwyd i dros 10,000 o broblemau eleni. Er gwaethaf y cynnydd yn y niferoedd o broblemau a adroddwyd, rydym wedi'u datrys (71.31%) 1101 o'r 1544 o broblemau a adroddwyd. Mae hyn i bob pwrpas yn welliant ychydig bach ar y blynyddoedd blaenorol. Mae gorfodaeth hefyd wedi gweld cynnydd blynyddol mewn problemau a adroddwyd. Eleni nodwyd bod 506 o broblemau wedi'u nodi a chafodd 259 (51.19%) eu datrys. Mae gorfodaeth cnydio yn parhau i fod yn llwyddiant, gyda 95.78% o'r holl broblemau yr adroddwyd amdanynt wedi cael eu trin.

Roedd cnydio eisoes yn broblem oedd yn destun pryder i'r cyhoedd yn ein harolygon Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad o flaen llaw. Mae rhwystrau, arwyddion a chamfeydd yn parhau i fod yn broblem, gydag ôl-groniad o broblemau sy'n weddill. Mae problemau yn ymwneud â'r bont wedi cael eu targedu unwaith eto ar gyfer gwaith lle bo modd, gan fod pontydd ar gau neu bontydd sydd ar goll yn gwneud rhan fawr o'r rhwydwaith yn anhygyrch.

Eleni cafodd 551 o bontydd eu hatgyweirio, eu symud neu eu hamnewid. Mae 310 o broblemau pontydd yn parhau i gael eu datrys. Un o'r rhain yw'r bont dros y Troddi ar Lwybr Cenedlaethol Llwybr Clawdd Offa, y bu'n rhaid ei chau gan y canfuwyd nad oedd yn ddiogel. Mae cyllid yn cael ei gyrchu i'w ddileu a'i hamnewid dros y ddwy flynedd nesaf. Yn y cyfamser, mae dargyfeiriad dros dro ar waith.



Cynhaliwyd Llwybr Arfordir Cymru yn rhannol trwy grant a weinyddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Helpodd hyn i wella'r ffensys diogelwch a'r arwynebedd ar safle Picnic y Graig Ddu.

Ariannwyd gwerth £102,427 o brosiectau gwella llwybrau drwy Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru. Y rhain oedd:-

- Galluogi gwirfoddolwyr – prynu pecynnau ac offer Cymorth Cyntaf a gosod pont droed newydd (GR 513095)
- 420m o arwynebedd ym Mharc Cefn Gwlad Rogiet
- 4 archwiliad pont a 4 pont newydd
- Dwy bont 9m a gwaith arwynebu ar Daith Gerdded Dyffryn Gwy
- Gwaith arwynebu ar Barc Drybridge (i'w gwblhau yn 2022/23)
- Gwaith arwynebu a chlirio ar Lwybr Ceffylau Comin Tryleg
- GR 476937 Gwelliannau i lwybrau bordiau a gwaith arwynebu i lwybr (yn darparu llwybr diogel i'r ysgol)

- Dathliadau ar gyfer 10<sup>fed</sup> pen-blwydd Llwybr Arfordir Cymru – prynu mainc, cerdd, celf, mynegbost a phanel dehongli newydd. Lluniau o Welliannau Drenewydd Gelli-farch cyn ac ar ôl gwaith





**Ffyrdd Iach Egnïol o Fyw** – Mae'r Tîm Mynediad Cefn Gwlad wedi gweithio gyda Swyddogion Teithio Llesol MonLife i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwella hygrychedd y rhwydwaith a'i gwneud hi'n haws i bobl gynnwys cerdded a beicio yn eu bywydau bob dydd.

Mae nifer o hawliau tramwy cyhoeddus ar y rhestr teithio llesol ar gyfer gwella. Eleni, parhaodd cyllid TLI ar gyfer Dolydd y Castell a'r Glasffordd. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar dudalennau gwe teithio llesol MonLife. Mae'r Tîm Mynediad Cefn Gwlad hefyd wedi ymateb i ymgynghoriadau eraill ar lwybrau teithio llesol sy'n effeithio ar safleoedd neu hawliau tramwy, ac yn gweithio lle bo angen ar orchmynion cyfreithiol i uwchraddio neu ddargyfeirio llwybrau, megis ar Williamsfield Lane.

**Gwybod Beth Sydd Ar Gael.** - Mae'r tîm yn parhau i brosesu ceisiadau am orchmynion sy'n diwygio'r rhwydwaith hawliau tramwy neu geisiadau am wybodaeth, gan gynnwys llawer o Chwiliadau Tir. Mae ymgynghoriadau ar gael ar wefan y Cyngor, ynghyd â chofrestr o orchmynion addasu a chau dros dro

**Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Safleoedd Cefn Gwlad a Gynhelir yn Dda: I dargedu gwelliannau i sicrhau bod y budd cyhoeddus mwyaf yn cael ei gael. Amcan: WM1 Gwell rhwydwaith/safleoedd ar gyfer defnydd hamdden a dyddiol; WM2 Cydymffurfiaeth; WM3 Hyrwyddo defnydd cyfrifol; WM4 Esblygiad a chynyddu hygyrchedd y rhwydwaith; WM5 Gwella Seilwaith Gwyrdd**

LIC = Llywodraeth Cymru CNC = Cyfoeth Naturiol Cymru CSF = Cyngor Sir Fynwy LIAC = Llwybr Arfordir Cymru PCBB = Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Prosiectau	Rhif Cyfeirnod CGMCG:	Pwy	Pryd	Adnoddau	Beth sydd wedi cael ei wneud? ( <b>gweler hefyd y cylchlythyron</b> ) <b>Ch1 1<sup>af</sup> Ebrill – 30<sup>ain</sup> Mehefin</b> <b>Ch2 1<sup>af</sup> Gorffennaf – 30<sup>ain</sup> Medi</b> <b>Ch3 1<sup>af</sup> Hydref – 31<sup>ain</sup> Rhagfyr</b> <b>Ch4 1<sup>af</sup> Ionawr 2022 - 31<sup>ain</sup> Mawrth 2022</b>
<b>Atgyweiriadau llifogydd</b> Mae dros £63,000 eisoes wedi'i wario yn 2020/21, yn atgyweirio difrod llifogydd i arwynebedd a strwythurau ledled y sir. Prosiectau a nodwyd o ran llifogydd gwanwyn 2020.	WM1 1.4, 1.8	Priffyrdd a Mynediad Cefn Gwlad	Cwblhawyd erbyn Ch4 Chwefror 2022	Grant wedi'i ymestyn i 2021 LIC £56,286.66	Ch1 Gosod cownter yn Nolydd y Castell, gosod pontydd yn Sandhouse a Phant-y-Goetre Roedd angen ail-gyflwyno ffigurau Ch2 i LIC. Dal i aros awdurdodiad gan LIC i wario'r grant. Ch4 Cyrhaeddodd cymeradwyaeth i wariant yn rhy hwyr yn y flwyddyn i gaffael deunyddiau neu wneud gwaith. Cais i ddwyn y cyllid ymlaen.
<b>Parc Drybridge, Trefynwy.</b> Arwynebu 100m o lwybr troed, arwyddion a gwelliannau i'r bont. Gwneud llwybr yn fwy hygyrch i bawb, drwy gydol y flwyddyn.	WM1	Mynediad Cefn Gwlad	Ch3 Hydref 2021	Grant Gwella Mynediad LIC £4,300	Ch2 Gwiriadau caffael Ch3 Hydref - Tendr wedi ei dderbyn Ch4 Dechreuodd y contractwr ar y gwaith ond bu rhaid stopio oherwydd newid yn y gofyniad gan CNC i gael caniatâd i'w gymeradwyo. Nawr yn aros am gymeradwyaeth Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd cyn dechrau gwaith ar y safle.

<p><b>Parc Gwledig Rogiet</b> - Arwynebu 420m o lwybrau mewn parc i wella mynediad i bawb.</p>	<p>WM1 1.3,1.4, 1.6 1.7, 1.12 AHL1 7.0, 7.1 CL1 18.1, CL3 20.0</p>	<p>Mynediad Cefn Gwlad</p>	<p>Erbyn diwedd Mawrth 2022</p>	<p>Grant Gwella Mynediad LIC £23,100</p>	<p>Ch2 Dyfynbrisiau a chaffael Ch3 Hydref - tendr wedi derbyn gwaith i ddechrau cyn gynted â phosib Gwaith Ch4 wedi'i gwblhau mewn parc</p>
<p><b>Atgyweirio ac amnewid Pontydd</b> 5+ amnewid dan grant LIC. 9 amnewid a 2 ail-seddu, wedi'u blaenoriaethu o dan gyfalaf CSF</p>	<p>WM1.</p>	<p>Mynediad Cefn Gwlad</p>	<p>Ch4 Chwefror 2022</p>	<p>Grant Gwella Mynediad LIC £18,067  Cyfalaf CSF</p>	<p>Ch1 Datryswyd 522 o broblemau pontydd allan o 831 a dderbyniwyd. Gosodwyd 5 pont newydd yn Sandhouse, Pant-y-Goetre, Llanfair Cilgedin, Llantrisant.  Ch2 Datryswyd 535 (63.61%) o'r 841 o broblemau a dderbyniwyd. Gosodwyd pontydd newydd yn Walnut Tree Farm, Llandegfedd a Magwyr. Diweddarwyd yr achosion cau dros dro ar y wefan.  Ch3 Hydref - Aros am y tendrau i archebu pontydd. Cyflogwyd contractwr i wirio diogelwch a pharatoi rhaglen ar gyfer amnewid pont Afon Troddi ar Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa. Bu'n rhaid cau hyn am resymau diogelwch a hyrwyddwyd y llwybr wedi'i ddargyfeirio.  Ch4 Pontydd newydd (i'w gosod yn haf 2022) yn Olway (9m), 3cw (4m), Taith Gerdded Dyffryn Wysg (10m) a Llan-ffwyst (4.5m) ac 8 ffrâm H wedi'u derbyn i gyfuno â chyllid LIC.</p>
<p><b>Taith Gerdded Dyffryn Gwy Eglwys Llandydiwg</b> Amnewid ac uwchraddio 2 x pont i'r gogledd o Eglwys Llandydiwg ac atgyfodi llwybr 70m o'r eglwys i'r ysgol</p>	<p>WM1.</p>	<p>Mynediad Cefn Gwlad</p>	<p>Ch3 Medi 2021</p>	<p>Grant Gwella Mynediad LIC £19,450</p>	<p>Ch2 Caffael arwynebedd wedi'i gwblhau a disgwyl tendr ym mis Hydref. Ch3 Tachwedd - dyfarnu contract ac arwynebu i ddigwydd cyn gynted â phosib. Ch4 Bu rhaid atal y gwaith arwynebu wrth aros am Drwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd, ond mae fframiau H a dwy bont 9m wedi'u prynu i'w gosod</p>

<p><b>Prosiect gwirfoddolwyr</b> Yn bennaf i helpu i osod dodrefn mynediad (62+) a brynwyd gan ddefnyddio Arian Grant Mynediad 2020/21 ac i brynu mwy o ddeunyddiau ar gyfer mwy o welliannau a nodwyd gan wirfoddolwyr</p>	WM1 1.3,	Mynediad Cefn Gwlad Gwehelog, Penallt,	Ch3 Medi 2021	Grant Gwella Mynediad LIC £3,074.12	C2 Hydref - mae rhai grwpiau yn dechrau eto. Ch3 Cyswllt gyda grwpiau gwirfoddol o ran blaenoriaethau ar gyfer deunyddiau / gosod. Ch4 30 pyst cyfeirbwynt wedi'u gosod gan Grŵp Gwirfoddoli Llanarfan. Pecynnau ac offer Cymorth Cyntaf wedi'u prynu. Pont wedi'i gosod
<p><b>Comin Tryleg</b> (Tryleg i New Mills) Gwella ac uwchraddio arwynebedd 100m y llwybr ceffylau</p>	WM1 1.8 AHL1 7.1 AHL1 7.5	Mynediad Cefn Gwlad	Ch4 Mawrth 2022	Grant Gwella Mynediad LIC £5,000	Ch2 Rhan o dendr caffael arwynebu ar raddfa fawr Ch4 Cwblhau'r arwynebu Mawrth 2022
<p><b>Lleoliad Drenwydd Gelli-farch GR 476937</b> Gwella 40m arwynebedd/draeniad llwybr troed, sy'n cysylltu'r ysgol Gynradd gyda'r Ganolfan Hamdden a'r Tiroedd.</p>	WM1.1	Mynediad Cefn Gwlad	Ch3 Medi 2021	Grant Gwella Mynediad LIC £8,049.98	Ch2 Gwaith caffael Ch3 Derbyniwyd tendrau ac yn aros i gontractwr ddechrau ar y gwaith. Ch4 Rheiliau llaw wedi'u gosod ar lwybr bordiau. Arwynebwyd y llwybr a gwellwyd y stepiau. Nawr mae'n gallu bod yn llwybr diogel da i'r ysgol ac yn rhan o daith gerdded gylchol leol (sy'n cael ei ddatblygu gyda chyllid A106).
<p><b>Cynnal Llwybr Cenedlaethol Llwybr Clawdd Offa</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal a chadw cyffredinol</li> <li>• Arwyddion</li> </ul>	WM1 1.10	Mynediad Cefn Gwlad, CNC, LIC	Yn parhau, ond Ch4 Mawrth 2022 ar gyfer y grant	£7,700, y mae 75% ohono'n cael ei ariannu â grant gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei weinyddu gan CNC	Ch1 Cafodd bid ei wneud a chafodd y cais terfynol ar gyfer 2020/21 ei wneud. Ch2 Cyfeirbwyntiau pen-blwydd 50 oed wedi'u gosod a bu cyhoeddusrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol. Mynychwyd Grŵp Cyswllt LICCA i drafod goblygiadau Cynghrair y Llwybr Cenedlaethol. Contract clirio cyntaf ar y gweill. Cynhaliwyd un daith tywys ar 25 <sup>ain</sup> Medi 2021 o Redbrook i Drefynwy. Ch3 Ail glirio'n digwydd. Cau'r pontydd ar frys am 6 mis a dargyfeirio ar waith. Gwaith dylunio, caniatâd ayb ar y gweill i amnewid y bont. 6 taith gerdded dywys wedi'u cynllunio, 2 y mis tan fis Rhagfyr. Ch4 Cafodd cais ei wneud am grant ar gyfer 2022-23. Clirio a chynnal a chadw parhaus i ddodrefn ac arwyddion.

<p><b>Cynnal Llwybr Arfordir Cymru (rhaglen waith:-</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynnal a chadw cyffredinol,</li> <li>• arwynebu a newid aliniad ym Mharc Gwledig y Graig Ddu,</li> <li>• Arwyddion a Gwelliannau i lwybr yng Nghaer Bryn Sudbrook</li> <li>• Ail-alinio yn Sant Pierre i Ferthyr Tewdrig</li> </ul> <p><b>Gwelliannau Pen-blwydd 10 oed Llwybr Arfordir Cymru ar ddau ben y llwybr</b></p>	<p>WM1 1.10, WM3 4.6</p>	<p>Mynediad Cefn Gwlad, CNC, LIC, tirlfeddianwyr, Cadw</p> <p>Cyngor Sir y Fflint, CSF Mynediad Cefn Gwlad, CNC, LIC,</p>	<p>Yn parhau, ond Ch4 i gwblhau grant</p> <p>yn parhau</p>	<p>Grant Llwybr Arfordir Cymru £21,974, gyda £700 ohono yn 100% cymorth grant, a'r 75% gweddill yn cael ei ariannu gan CSF</p> <p>Grant Gwella Mynediad LIC £21,672</p>	<p>Ch1 Cyfarfod rhanbarthol Ch2 Clirio llystyfiant ar y gweill. Cyfarfodydd gyda Redrow a Cadw o ran gwelliannau Caer Bryn Sudbrook Ch3 Cafodd cais am grant ei wneud ym mis Hydref. Tendr wedi'i gwblhau ar gyfer arwynebu yn y Graig Ddu. Archebu ymlaen llaw, gwneud ymgynghoriadau ar gyfer ail-alinio llwybr Sant Pierre i Ferthyr Tewdrig Ch4 Cwblhawyd yr arwynebu yn y Graig Ddu.</p> <p>Dechreuodd y prosiect ym mis Ionawr 2022. Cafodd Panel Dehongli ei ddylunio a'i brynu, ynghyd â mynegbost arbennig a phlaciau logo metel ar gyfer safle Sir y Fflint ac yng Nghas-gwent. Comisiynwyd Bardd Cenedlaethol Cymru i ddatblygu cerdd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru. Yn ogystal, comisiynwyd artist i ddylunio darnau o gelf i arddangos y gerdd ar ddau ben y llwybr. Fe wnaethom hefyd gomisiynu mainc haearn bwrw pen-blwydd 10 oed a dehongliad sain. Aeth y Prif Weinidog ar ymweliad â Chas-gwent ym mis Mai 2022 i sôn am ddyfodol yr arfordir ac i ddatgelu'r gerdd a'r fainc. Disgwylir i'r gwaith o osod yr holl eitemau gael ei wneud ddiwedd Mehefin 2022, a bydd digwyddiad arall i ddadorchuddio'r gwaith.</p>
---	------------------------------	---	--	---	--



<p><b>Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent</b> Nodi cysylltiadau coll i gael mynediad at rwydwaith yn rhanbarthol ac yn lleol, datblygu rhaglen hyfforddi ceidwaid a rhoi prosiectau ar waith yn y rhanbarth.</p>	<p>WM6 6.1 WM3 4.2 WM5 5.0, 5.1 WM4 4.0 AHL1 7.0 AHL17.1, 7.2, 7.3, 7.6 WM6 6.1, 7.7, 7.9</p>	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn arwain, SG a Mynediad Cefn Gwlad CSF, Cyngor Sir Casnewydd, CBS Blaenau Gwent, CBS Caerffili, CNC, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Fforymau Mynediad Lleol a Phartneriaid eraill</p>	<p>19 Mai 2021 tan 2023</p>	<p>I'w gadarnhau</p>	<p>Ch2 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Penodi Swyddog Brand wedi'i gwblhau. Ch3 Cyhoedduswydd ar gyfer y prosiect. CSF yn penodi swyddog mynediad. Torfaen yn recriwtio ceidwaid prentis. Cyfweiliadau Tachwedd Ch4 Cafodd swyddog HTC yn y Tîm Mynediad Cefn Gwlad ei gyfsweld a'i secondio i rôl Swyddog Mynediad Rhanbarthol. Drafftio gofynion FfMML, gwirio gwaith wedi'i gwblhau a nodi prosiectau ar gyfer gwelliannau 2022-23</p>
<p><b>Eglwys Ganoloesol Runston.</b> Cyfuno cadwraeth asedau hanesyddol gyda chynllun gwella mynediad.</p>	<p>WM3 4.6 WM3 3.3</p>	<p>Cadw, Ystadau LIC, Tirfeddiannwr, Maes Saethyddiaeth, Mynediad Cefn Gwlad ac Iechyd yr Amgylchedd CSF</p>	<p>Haf 2021</p>	<p>Grant Cadw?</p>	<p>Ch2 Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r holl bartïon a chytunwyd ar welliannau. Arwyddion yn cael eu costio a'u gosod. Ch3 Arwyddion terfynol a deunyddiau hyrwyddo/addysgol i'w cynnal. Ch4 Gorfodaeth drwy Drwyddedu.</p>
<p><b>Llwybr Troed Hafren</b> - mesurau i atal neu leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chefnogi defnydd diogel cyfrifol gan denantiaid a'r cyhoedd</p>	<p>WM3 3.2, 3.4, 3.5, 5.2</p>				<p>Achos parhaus:- Estyniad 6 mis i'r gorchymyn cau a wnaed. Swyddog Gorfodi Newydd mewn swydd. Adroddiad drafft ar lwybrau a defnydd tystiolaethol hanesyddol wedi'i gwblhau. Cyswllt parhaus gyda'r Heddlu, CNC ac eraill dros wahanol faterion. Cysylltwyd â Thirfeddianwyr a Meddianwyr o ran datrysiad dargyfeirio posibl. Lanswyd ymgynghoriad cyhoeddus fis Tachwedd. Adroddiad wedi'i gwblhau Ch4. Amnewidiwyd yr hysbysiadau cau</p>

<p><b>Mynediad Lefelau Byw</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella arwyddion "i Lwybr Arfordir Cymru"</li> <li>Cyfeirbwyntiau ac arwyddion ar 3 llwybr newydd a'u hybu</li> <li>Ail-osod arwyddion coll ar lwybrau yn ardal prosiect Lefelau Byw</li> </ul>	WM1 1.3	Seilwaith Gwyrdd MonLife	Mawrth 2021	£15,000	Ch2 Chwilio am gymeradwyaeth gan CNC ar gyfer arwyddion Llwybr Arfordir Cymru. Gwaith caffael i brosiectau eraill Ch3 Hydref - Cafwyd cadarnhad o gytundeb CNC i arwyddion newydd "i Lwybr Arfordir Cymru". Ch4 Gosodwyd yr arwyddion Trafodwyd prosiectau etifeddiaeth. Llwybrau cylchol wedi'u cwblhau.
<p><a href="#">Gwelliannau Seilwaith Gwyrdd   Dyffryn Gwy AHNE</a> Mentrau seiliedig ar natur a thirwedd ehangach i fynd i'r afael â phroblemau priffyrdd hirdymor, llifogydd a llwybrau mynediad amlwrpas diogel yn Nyffryn Gwy.</p>	WM4 4.3, 4.4 WM6 6.2, 6.3 AHL 9.6 PW1 21.6 FF4 24.4	Priffyrdd, Heddlu, CNC, Mynediad Cefn Gwlad, SG, Tirfeddianwyr, Grwpiau Defnyddwyr AHNE Dyffryn Gwy	yn parhau	Yn ceisio cyllid ac adnabod costau	Ch2 Cyfarfod gyda Phriffyrdd i weithio ar y cyd ar fynd i'r afael â phroblemau ar C2.2, Old Castle Rd yn PCBB. C4 Yn chwilio am arian
<p><b>Gwelliannau Mynediad AHNE Dyffryn Gwy</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Prosiect banc/erydu Llwybr Wyesham Trefynwy</li> <li>Gwelliannau Taith Gerdded Wordsworth.</li> </ol>	WM1 1.11	Dyffryn Gwy AHNE Mynediad Cefn Gwlad, CAPITA	YN PARHAU (Ch3 Rheiliau llaw pwrpasol wedi'i ffurfio â llaw i'w gosod ar daith gerdded Wordsworth)	£38 mil  Cyfraniad Tirweddau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, AHNE Dyffryn Gwy a thirfeddianwyr	Ch1 Clirio llwybr Wordsworth yn Cleddon ac agor un o'r sianeli draenio hanesyddol uwchben Tanglewood i annog llif brig i'r nant yn hytrach na'r llwybr.  Ch2 Dyluniadau Capita yn cael eu hystyried ar gyfer addasrwydd a gwerthusiad costau ar Lwybr Cerdded Dyffryn Gwy  Dechreuodd waith Gwelliannau Taith Gerdded Wordsworth gael gwared ar seilwaith, gosod camau newydd, ymylu diogel y llwybr sy'n mynd wrth ymyl y Rhaeadr a cheirios ymledol wedi'u tynnu. Gweler AHNE Facebook am luniau a diweddariadau parhaus

<p><b>Cynnal rhwydwaith HTC</b></p>	<p>WM1. 1.2, 1.4, 1.6, 1.7</p>	<p>Mynediad Cefn Gwlad, tirfeddianwyr, cynghorau cymuned</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Cyfalaf £</p>	<p>Ch1 Datryswyd 70.23% (1111) o broblemau ar y rhwydwaith hawliau tramwy a 252 (52.50%) o broblemau gorfodaeth</p> <p>C2 Prosesau caffael a Thendrau wedi'u hysgrifennu ar gyfer prosiectau arwynebu. Dal i aros i weld a oedd grant llifogydd wedi cael ei gadarnhau. Gosodwyd pontydd newydd yn Llandegfedd a Magwyr. Yr achosion cau wedi'u diweddaru ar y wefan</p> <p>Contractau torri ar y gweill a'r cliriad llystyfiant 1<sup>af</sup>. 2685 (78.60%) o'r problemau clirio a adroddwyd wedi'u datrys.</p> <p>Datryswyd y problemau canlynol a adroddwyd yn ystod y chwarter: 1772 (49.57%) arwydd, 535 (63.61%) pont, 271 (61.73%) arwyneb, 641 (74.88%) giât, 1077 (64.07%), 735 (96.58%) cnydio a 1433 (52.78%) o broblemau eraill. Datryswyd 253 o 498 o broblemau gorfodaeth a 1139 (70.83%) o 1608 o broblemau cynnal a chadw Ch4 Adroddwyd bod problemau yn parhau i godi. Datryswyd 269 o broblemau gorfodaeth allan o 543 ac fe ddatryswyd cyfanswm o 1215 o broblemau cynnal a chadw allan o 1714. Mae hyn yn cynnwys y problemau canlynol wedi'u datrys (% o broblemau): - 63.40% camfeydd, 74.80% giatiau, 63.49 arwynebedd, 78.74% clirio, 64% pontydd, 49.61% arwyddion, 95.78% cnydio, 38.78% rhwystrau a 52.43% eraill.</p>
-------------------------------------	--	--	----------------	------------------	---

<p><b>Cynnal safleoedd cefn gwlad a pharatoi cynlluniau rheoli</b></p>	<p>WM1 1.12</p>	<p>Mynediad Cefn Gwlad, Cyfeillion Grwpiau, gwirfoddolwyr,</p>	<p>yn parhau</p>	<p>Cyllid CSF £20,000</p> <p>Adran 106 Rheoli Coetir Warren Slade £9,119.50</p> <p>Adran 106 Cynllun gwella Gweithfeydd Haearn Clydach £53,000</p>	<p>Ch1 Chwistrellu efwr enfawr mewn safleoedd Parc Gwledig. Tynnu coed helyg a thorri glaswellt ar Ddolydd y Castell wedi'u cwblhau</p> <p>Ch2 Arwyddion safle newydd wedi'u gosod. Gweithio gyda Cadw ar welliannau yn Ffwrnais Abaty Tyndyrn, maes parcio ac adfer/gwaith arall yng Nghlydach ar y gweill. Chwilio am arian ychwanegol ar gyfer atgyweirio critigol i heneb. Cytundeb Pysgota ar waith ar gyfer 2021/22. Arolygiadau coed ar gyfer Clefyd Coed Ynn. Gosod 4 cownter teithio llesol ar Ddolydd y Castell, tri yng Ngweithfeydd Haearn Clydach .</p> <p>Ch3 Taith gerdded tîm i lansio teithiau cerdded Plant Mewn Angen yn Sir Fynwy.</p> <p>Ch4 Cyfeillion y Parciau wedi dychwelyd.</p>
<p><b>Lleihau problemau cnydio</b></p>	<p>WM1 1.1</p>	<p>Cyngor Sir Fynwy, tîrfeddianwyr, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr/Undeb Amaethwyr Cymru</p>	<p>PARHAUS (TYMHOROL)</p>	<p>Cyllideb Mynediad Cefn Gwlad presennol</p>	<p>Ch1 97.742% o broblemau cnydio wedi'u datrys</p> <p>Ch2 735 (96.58%) o 761 o broblemau cnydio wedi'u datrys.</p> <p>Ch3 96.42% neu 728 o 760 o broblemau cnydio wedi'u datrys.</p> <p>Ch4 95.78% o broblemau cnydio wedi'u datrys gan adael dim ond 32 heb eu datrys.</p>

<b>Hyrwyddo ymddygiad cyfrifol a chod cefn gwlad newydd</b>	WM3 3.0	Cyngor Sir Fynwy	yn parhau		Ch1 Negeseuon cyfryngau cymdeithasol o ran y cod cefn gwlad newydd. Y wasg ynglŷn â Nofio Gwylt. Ch2 Cod nofio gwylt a chefn gwlad wedi'i newid a'i hyrwyddo ar safle Ymweld â Sir Fynwy a chyfryngau cymdeithasol. Ch3 Cod Cefn Gwlad Newydd ac Adventure Smart yn cael ei hyrwyddo gyda Cherddwyr Plant Mewn Angen.
<b>Adolygiad blynyddol o gytundeb dirprwyo a chynllun gwaith PCBB</b>	WM1 1.9	CSF, PCBB	Ebrill 2021	Cyllidebau presennol	Cwblhawyd Ebrill 2021. Gweler y cynllun cyflawni ar gyfer PCBB ar gyfer gwelliannau sy'n digwydd yn y Parc Cenedlaethol

**Ffyrdd Iach Egniöl o Fyw: I wella hygyrchedd y safleoedd rhwydwaith/cefn gwlad a'i gwneud hi'n haws i bobl gynnwys cerdded, marchogaeth a beicio yn eu bywydau bob dydd. Cefnogi'r rhwydwaith hawliau tramwy ar gyfer teithiau pwrpasol.**

Amcanion: - Sicrhau buddion iechyd a lles; Teithio Llesol; Newid moddol i gerdded a beicio; Mynd i'r afael ag amddifadedd ac anfantais

LIC = Llywodraeth Cymru CNC = Cyfoeth Naturiol Cymru CSF = Cyngor Sir Fynwy LIAC = Llwybr Arfordir Cymru PCBB = Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Prosiectau	Rhif Cyfeirnod CGMCG:	Pwy	Pryd	Adnoddau	Beth sydd wedi cael ei wneud? <b>(gweler hefyd y cylchlythyron)</b> <b>Ch1 1<sup>af</sup> Ebrill – 30<sup>ain</sup> Mehefin</b> <b>Ch2 1<sup>af</sup> Gorffennaf – 30<sup>ain</sup> Medi</b> <b>Ch3 1<sup>af</sup> Hydref – 31<sup>ain</sup> Rhagfyr</b> <b>Ch4 1<sup>af</sup> Ionawr 2022 - 31<sup>ain</sup> Mawrth 2022</b>

Teithio Llesol Dolydd y Castell	AHL1 7.0 ac 8.4, 7.6, 7.8, AHL 8.0, 8.2 AHL3 9.0, 9.4	Mynediad Cefn Gwlad, Teithio Llesol, CGC, Priffyrdd	2021/23		Ch2 Prosiect rhaglennu gydag ymgynghorwyr. Adroddiadau clirio, arolygu ac ecoleg. Cyfarfodydd pob pythefnos. Dyluniadau'n cael eu hystyried. Cyswllt â thirfeddianwyr. Ch3 Ymgynghoriad cyhoeddus i gael ei gynnal fis Tachwedd. Ch4 Un cyfarfod ar y safle, ymchwil parhaus a chasglu tystiolaeth ar gyfer cyflwyno ac adroddiadau cynllunio ar gyfer LIC.
Teithio Llesol - Taith gerdded Dyffryn Gwy i Eglwys Llandydiwg	AHL1 7.0 AHL3 9.2, 9.4 AHL4 10.1	Amey, Mynediad Cefn Gwlad, Teithio Llesol MonLife	2021		Ch2 Derbyniwyd newyddion ym mis Gorffennaf gall y prosiect gael ei ariannu, aros am gadarnhad. Ch3 Cafwyd cadarnhad ym mis Hydref bod y cyllid wedi'i ddyrannu. Lansio ymgynghoriad cyhoeddus gyda chynllun Dixton Road 18 Hydref.
Ymgynghoriad Teithio Llesol	AHL1 7.0 AHL2 8.4		Mehefin/Gorffennaf 2021		Ch1 Adolygwyd y llwybrau teithio Llesol Ch2 ymgynghoriad i'r FfMLI Gorffennaf 2021 Cyfarfod swyddogion i adolygu'r newidiadau
Uwchraddio llwybr troed Lôn Williamsfield i lwybr beicio/llwybr ceffylau	AHL1 7.0, 7.6, 7.8, AHL 8.0, 8.2 AHL3 9.0, 9.4	Priffyrdd a Mynediad Cefn Gwlad			Ch1 Darparwyd arwyneb matio dros dro. Ch2 Cynghori ynghylch cyfreithlondebau i uwchraddio ac o bosibl symud llwybr. Ch4 Ceisio cynorthwyo gyda gorchmynion cyfreithiol

Creu llwybr rheilffordd Brynbuga	AHL1 7.0	Priffyrdd	2021/22	£20,000	Mae'r prosiect yn cael ei drin gan y Swyddog Priffyrdd/Teithio Llesol. Dyrannwyd £20 mil i geisio dod o hyd i ffordd ymlaen ar gyfer y cynllun. Nid oedd y bid Teithio Llesol am arian i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus. Chwilio am gyllid amgen.
Teithio Llesol y Glasffordd – Rheilffordd Cil-y-coed	AHL1 7.0	Seilwaith Gwyrdd	2021/23		Llwybrau a gwelliannau'n cael eu darparu gan y Tîm Seilwaith Gwyrdd

**Gwybod Beth Sydd Ar Gael:** Cyflawni Map a Datganiad Diffiniol cyfredol a hygyrch ac i hyrwyddo safleoedd cefn gwlad a'r rhwydwaith Hawliau Tramwy'r Cyhoedd (HTC).

Amcanion; Cynnal a gwneud cofnodion mwy hygyrch; Darparu cyngor ar rwydwaith HTC a safleoedd cefn gwlad; Negodi Gwelliannau; Gwybodaeth fwy hygyrch/cynyddu gwybodaeth a hyder; Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a llwybrau a hyrwyddir; twristiaeth gynaliadwy; Gwelliannau hyrwyddo anabled

LIC = Llywodraeth Cymru CNC = Cyfoeth Naturiol Cymru CSF = Cyngor Sir Fynwy LIAC = Llwybr Arfordir Cymru PCBB = Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog LICCO = Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa

Prosiectau	Rhif Cyfeirnod CGMCG:	Pwy	Pryd	Adnoddau	Beth sydd wedi cael ei wneud? (gweler hefyd y cylchlythron) <b>Ch1 1<sup>af</sup> Ebrill – 30<sup>ain</sup> Mehefin</b> <b>Ch2 1<sup>af</sup> Gorffennaf – 30<sup>ain</sup> Medi</b> <b>Ch3 1<sup>af</sup> Hydref – 31<sup>ain</sup> Rhagfyr</b> <b>Ch4 1<sup>af</sup> Ionawr 2022 - 31<sup>ain</sup> Mawrth 2022</b>
<b>Cynnal cofrestrau cyhoeddus</b> ar lein ac ychwanegu rhestr o'r holl awdurdodiadau adran 147 a gorchmynion cyfreithiol	KWOT 11.2	Mynediad Cefn Gwlad MonLife	2021/22	Adnoddau presennol	<b>Ch2 Rhestr o gau dros dro wedi'i ddiweddarau</b> Gwybodaeth am y cau dros dro ar-lein <a href="#">yma</a>
<b>Prosesu ceisiadau i greu, symud, neu gau llwybrau cyhoeddus.</b>	KWOT2	Mynediad Cefn Gwlad MonLife, Gwasanaethau Cyfreithiol, LIC	<b>yn parhau</b>	Adnoddau presennol ac ailgodi tâl o'r ymgeisydd	46 Gorchymyn Deddf Priffyrdd a 19 gorchymyn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref ar wahanol gamau o'u cwblhau. C3 adolygu a diweddarau'r pecyn cais a'r rhestr ymgynghori Ch4 Gorchmynion nawr yn cael eu gwneud eto.

<b>Adolygu rhaglen Blaenoriaethu Addasu</b>	KWOT 11.3	Mynediad Cefn Gwlad MonLife	Gaeaf 2022		
Prosesu a gwneud <b>hysbysiadau cau dros dro</b> yn ôl y gofyn	KWOT2 12.4 P	Mynediad Cefn Gwlad MonLife, Gwasanaethau Cyfreithiol, LIC	yn parhau	Adnoddau presennol ac ailgodi tâl o'r ymgeisydd	<b>yn parhau Ch2 diweddar</b> u'r <a href="#">gofrestr</a> cau dros dro (8 <sup>fed</sup> Gorffennaf)
Parhau i brosesu hawliadau yn ôl y blaenoriaethu, a cheisio adnoddau ychwanegol i glirio'r ôl-groniad o geisiadau.	KWOT 11.3	Mynediad Cefn Gwlad MonLife, Gwasanaethau Cyfreithiol, Priffyrdd, yr Arolygiaeth Gynllunio	yn parhau	Adnoddau presennol	Ch1 un gorchymyn addasu wedi'i gadarnhau. Fe wnaeth un ymgynghoriad gael ei gwblhau. Un awdurdodiad pŵer dirprwyedig er mwyn i orchymyn cael ei wneud. Ch4 Ymgynghoriad ac adroddiad ar gyfer y meysydd tanio wedi'u cwblhau. Sawl gorchymyn yn aros i fynd i'r pwyllgor.
cyngor ynglŷn â cheisiadau cynllunio	<b>KWOT2 12.1</b>	Mynediad Cefn Gwlad MonLife	<b>yn parhau</b>	<b>PRESENNOL</b>	Ch1 Cwblhawyd 190 CHWILIAD PRIDIANNAU TIR (o'i gymharu â 108 y llynedd) Ch2 244 Gorchmynion Pridiannau Tir wedi cwblhau Ch3 Pridiannau tir coeden a gwrychoedd wedi symud i gynllunio. Pridiannau tir Hawliau Tramwy yn parhau. Ch4 Pridiannau tir yn parhau
Gwybodaeth Mynediad Coetir Darparu dolenni i safleoedd CNC ar dudalennau gwe MonLife ac Ymweld â Sir Fynwy	KWOT4 14.4	CNC, Rheoli Cyrchfannau MonLife a Mynediad Cefn Gwlad	Heb ddechrau eto oherwydd Covid. Gohiriwyd i 2021/22	<b>PRESENNOL</b>	
Gweithio gyda CNC i adolygu ffyrdd eraill o ddelio gyda hawliadau ar dir CNC a cheisio adnoddau i lunio cynlluniau rheoli.	KWOT3 13.1	<b>CNC, MonLife</b>	YN PARHAU	PRESENNOL	Dim cynnydd oherwydd Covid, a chynnydd yn y galw ar amser staff mewn mannau eraill
<b>Gwybodaeth Mynediad Llwybrau Ceffylau mewn Coetiroedd</b> Sefydlu lle y gall y cyhoedd fynd o amgylch coetiroedd CNC yn Sir Fynwy, a sicrhau bod gwybodaeth ar gael	KWOT4 14.5	CNC, Rheoli Cyrchfannau MonLife a Mynediad Cefn Gwlad	Rhagfyr 2021	presennol	Dim cynnydd oherwydd Covid, a chynnydd yn y galw ar amser staff mewn mannau eraill



Adolygu arwyddion ar draws safleoedd MonLife	KWOT 16.2	Mynediad Cefn Gwlad MonLife	wedi'i gwblhau	Cyllid Covid	Ch1/2 Gosod arwyddion mynedfa newydd ar y safleoedd. Newid arwyddion Covid yn ôl yr angen drwy gydol y flwyddyn
<p><b>Cyfranogiad Cymunedol: Cefnogi a galluogi grwpiau gwirfoddol i ymwneud yn weithredol â phrosiectau cefn gwlad, gan gyfrannu at les a chreu cymunedau cynaliadwy a gwydn.</b></p> <p><b>Amcanion:- Ymwneud â Gwirfoddolwyr; Helpu gwirfoddolwyr; Rhaglenni gwirfoddol newydd i wella iechyd a lles, gwella'r amgylchedd/bioamrywiaeth a chael pobl ifanc i wirfoddoli</b></p>					
Prosiectau	Rhif Cyfeirnod CGMCG:	Pwy	Pryd	Adnoddau	Beth sydd wedi cael ei wneud? ( <b>gweler hefyd y cylchlythyron</b> ) <b>Ch1 1<sup>af</sup> Ebrill – 30<sup>ain</sup> Mehefin</b> <b>Ch2 1<sup>af</sup> Gorffennaf – 30<sup>ain</sup> Medi</b> <b>Ch3 1<sup>af</sup> Hydref – 31<sup>ain</sup> Rhagfyr</b> <b>Ch4 1<sup>af</sup> Ionawr 2022 - 31<sup>ain</sup> Mawrth 2022</b>
<b>Datblygiad Taith Gylchol Ddaeareg</b> , Cefn Ila, Llanbadog Fawr (Elfen CSF yw gwella mynediad i bawb drwy amnewid camfeydd gyda giataiau)	WM1 1.6, 1.2, 1.3 AHL1 7.6, 7.7, KWOT4 14.3 KWOT6 16.3 CL1 18.1CL3 20.2, PW1 21.7	Ramblers Cymru, Cyngor Cymuned Llanbadog Fawr, Mynediad Cefn Gwlad CSF, Tirfeddianwyr	I'w gadarnhau - wedi'u heffeithio gan Covid Amcangyfrifir bydd y giataiau newydd mewn lle hydref 2021	Cyllid gan Ramblers Cymru a Chyllid Grant Gwella Mynediad	C2 Medi. Mae'r Cerddwyr yn cadarnhau bod y Prosiect Llwybrau Lles yn mynd rhagddo. CSF yn hyfforddi swyddog rhanbarthol Ramblers Cymru i osod giataiau ar lwybr Daeareg Ch3 Cyhoeddi drafft terfynol Wedi'i atal oherwydd diffyg adnoddau swyddogion yn Ramblers Cymru.
<b>Magwyr</b> – wedi'i gwblhau o ran <b>arwyddion a hyrwyddo 8 llwybr cylchol</b> o gwmpas Magwyr a Gwndy	WM1 1.6, CI1 18.1	Seilwaith Gwyrd, Lefelau Byw	Hydref 2021	Cyllid Adran 106 o £4,608	Gweler cynllun cyflawni Tîm SG

<p><b>Marcio Fy Llwybrau</b>, Prosiect Peilot i Gymru. Hyfforddi gwirfoddolwyr a nodi arwyddion pwysig sydd ar goll. Gweithio gyda chymunedau i'w datrys.</p>	<p>WM1.3 a CI1 18.1</p>	<p>Ramblers Cymru, Gwirfoddolwyr, CSF Mynediad Cefn Gwlad a CBS Torfaen</p>	<p>Ionawr 2020 – Mawrth 2021</p>		<p>Ch1 Arolygon ar y gweill a chofnodion yn cael eu diweddarau Ch2 Trafodaethau gyda Ramblers Cymru a Cherddwyr y Grysmwnt o ran gwelliannau yn eu hardal. Ch3 canfyddiadau o arolygon yn dangos bod 50% o arwyddion ar goll yn Nhorfaen a Sir Fynwy. Gwersi a ddysgwyd o brosiectau i gael eu cyhoeddi. Ch4 Cyfarfod â Ramblers Cymru o ran prosiect cyllid grant newydd a'r gallu i gydlynu hyfforddiant i gyflwyno gwaith arwyddion ar lawr gwlad.</p>
<p><b>Grŵp Gwirfoddolwyr Penallt, Hyrwyddo llwybr cylchol</b> Buzzard a gwella llwybrau</p>	<p>WM1 1.6 a CI1 18.1</p>	<p>Grŵp Gwirfoddolwyr Pennallt, Mynediad Cefn Gwlad</p>		<p>Adnoddau presennol a rhai o Grant Gwella Mynediad LIC</p>	<p>Ch2 Gwirfoddolwyr newydd ddechrau gallu gweithio eto, yn amodol ar reoliadau Covid a gwiriadau unigol gan y cydlynydd gwirfoddolwyr</p>
<p><b>Cefnogi grwpiau presennol a datblygu grwpiau cymunedol newydd</b> i wella a chynnal eu hawliau tramwy lleol a safleoedd cefn gwlad (gan gynnwys hyfforddiant a chanllawiau),</p>	<p>WM1 1.6, CI1 18.2 FF7 27.3</p>		<p>YN PARHAU</p>	<p>£3,074.12 Grant Gwella Llywodraeth Cymru</p>	<p>Ch1 Hyfforddi 2 grŵp gwirfoddol newydd Ch2 Cymorth i Grŵp Cerdded Digwyddiadau'r Grysmwnt i gyflwyno ceisiadau i Ynni Gwyrdd Cymunedol a Paths 4 People. Dychwelodd Grŵp Pennarth, a Chyfeillion Dolydd y Castell. Dychwelodd y Grŵp Gorchwyl Sadwrn ar ôl 16 mis a thrwsio ffensys a gosod blychau adar yn Nolydd y Castell. Dychwelodd Cyfeillion Iau Dolydd y Castell. Ch3 Hydref dychwelodd Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent. 5 Llwybr cylchol wedi'u nodi ar gyfer gwelliannau gyda phrosiect Cerddwyr Llwybrau at Les yn y Grysmwnt. Ch4 Pecynnau Cymorth Cyntaf ac offer wedi'u prynu ar gyfer gwirfoddolwyr, gan gynnwys torwyr prysgwydd a strimwyr. 10+ cyfeirbyst wedi'u gosod gan Grŵp Llanarfan.</p>

Datblygu a chyhoeddi canllawiau ar gyfrifoldebau o ran grwpiau a gofynion yswiriant	C12 19.1		YN PARHAU		wedi'i gwblhau
Chwilio am gyfleoedd i grwpiau penodol hefyd wella mynediad ar lwybrau caniaatol ar dir CNC.  Cysylltiadau â <b>Grŵp Gwirfoddolwyr Penallt - Hyrwyddo llwybr cylchol newydd (Buzzard).</b>	AHL 1 7.2	Grŵp Gwirfoddolwyr Pennarth, Mynediad Cefn Gwlad MonLife a CNC	yn parhau	Adnoddau presennol	Methu symud ymlaen i hydref 2021 oherwydd cyfyngiadau capasiti staff
<b>UWCHRADDIO SYSTEM RHEOLI MYNEDIAD I GEFN GWLAD</b> - Gwella Technoleg Gwybodaeth a rhyngwyneb mapio i fod yn fwy defnyddiol ar gyfer prosiectau gwirfoddol	CI2 19.0	<b>Exegesis, Mynediad Cefn Gwlad CSF Gwasanaeth Adnoddau a Rennir</b>	<b>2020 - 2021</b>	Presennol	Contract ar waith i ddiweddarau'r wefan i gwrdd â diogelwch, hygyrchedd a'r Safonau Iaith Gymraeg. Ychwanegu ymarferoldeb ychwanegol i gynnwys gwirfoddolwyr cymorth Hyb Gwybodaeth Casnewydd, llif gwaith ychwanegol i swyddogion, e.e. asesiadau pont a gwella'r ddarpariaeth mapio cyflymder a sylfaen.  Ch2 Ch2 Uwchraddio'r System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad yn cael ei brofi. Gweinyddion newydd bellach yn eu lle a QGIS

## Cymru Lewyrchus:: Sicrhau'r budd economaidd mwyaf posib o fynediad at gefn gwlad

Amcanion: I wneud y mwyaf o fuddion economaidd, gwella cynnyrch a thyfu marchnadoedd newydd

LIC = Llywodraeth Cymru CNC = Cyfoeth Naturiol Cymru CSF = Cyngor Sir Fynwy LIAC = Llwybr Arfordir Cymru PCBB = Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Prosiectau	Rhif Cyfeirnod CGMCG:	Pwy	Pryd	Adnoddau	Beth sydd wedi cael ei wneud? (gweler hefyd y cylchlythyron) <b>Ch1 1<sup>af</sup> Ebrill – 30<sup>ain</sup> Mehefin</b> <b>Ch2 1<sup>af</sup> Gorffennaf – 30<sup>ain</sup> Medi</b> <b>Ch3 1<sup>af</sup> Hydref – 31<sup>ain</sup> Rhagfyr</b>  <b>Ch4 1<sup>af</sup> Ionawr 2022 - 31<sup>ain</sup> Mawrth 2022</b>
<b>Cynnal Cyfarfodydd Rheoli Llwybr yr Arfordir Rhanbarthol</b>	FW1 21.3	CNC, LLC, CADW, MonLife	yn parhau	presennol	Ch1 Cynhaliwyd cyfarfod rhanbarthol ar Teams. 15 <sup>fed</sup> Gorffennaf gweminar rhagarweiniol Ein Llwybrau Byw. Deialog barhaus a diweddariadau gyda Swyddog Llwybr yr Arfordir Rhanbarthol. Mynychwyd cyfarfod Adolygiad LIAC ar 4 <sup>ydd</sup> Mawrth. Mynychwyd cyfarfod Grantiau YC/LIAC ar gyfer ALLau ar Fawrth 17 <sup>eg</sup> . Mynychwyd cyfarfodydd pen-blwydd 10 oed LIAC amrywiol.

**Canolbwyntio ar y Dyfodol: Gweithio dros wasanaeth gwydn sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, mewn partneriaeth ag eraill, i ddarparu buddion ehangach i drigolion ac ymwelwyr yn Sir Fynwy.**

Amcanion:- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r CCMCG, Cysylltiadau â strategaethau a chynlluniau eraill; I gyflawni amcanion yn y cynllun; gweithio mewn partneriaeth; Effaith Amgylcheddol a mesurau lliniaru; Darparu adnoddau; Gwell gwasanaeth cwsmeriaid; Newidiadau deddfwriaethol a rheoli gweithredol

LIC = Llywodraeth Cymru CNC = Cyfoeth Naturiol Cymru CSF = Cyngor Sir Fynwy LIAC = Llwybr Arfordir Cymru PCBB = Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Prosiectau	Rhif Cyfeirnod CGMCG:	Pwy	Pryd	Adnoddau	Beth sydd wedi cael ei wneud? <b>(gweler hefyd y cylchlythyron)</b> <b>Ch1 1<sup>af</sup> Ebrill – 30<sup>ain</sup> Mehefin</b> <b>Ch2 1<sup>af</sup> Gorffennaf – 30<sup>ain</sup> Medi</b> <b>Ch3 1<sup>af</sup> Hydref – 31<sup>ain</sup> Rhagfyr</b> <b>Ch4 1<sup>af</sup> Ionawr 2022 - 31<sup>ain</sup> Mawrth 2022</b>
23.0 Cryfhau partneriaeth sy'n gweithio gyda Rhanddeiliaid allweddol i wneud gwell synnwyr o'r rhwydwaith a darparu amgylcheddau deniadol diogel a gynhelir yn dda.			yn parhau		Ch1 ac yn parhau tan fis Medi, wardeniaid safle MonLife yn cynorthwyo gyda gwiriadau ar safleoedd mynediad cefn gwlad. Ch2 Ystyried caffael tir gyda Redrow. Gweithio gyda Cadw ar welliannau i gael mynediad i safle Eglwys Runston a'r safle Saethyddiaeth. Cynorthwyo Gwehelog gyda grant ariannol. Cyfarfodydd gydag AHNE Dyffryn Gwy o ran gwelliannau mynediad. Cysylltu ag Iechyd yr Amgylchedd a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gael cymorth gydag achosion gorfodaeth arbenigol. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol o ran Pen-y-fâl Cyfarfodydd gyda PCBB o ran achosion amrywiol. Cyswllt parhaus gyda chontractwyr, priffyrdd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill o ran rhaglenni teithio llesol. Canllaw Dodrefn Mynediad Cefn Gwlad CSF a rennir gyda Chyngor Swydd Gaerloyw CC a Chanllaw Bioamrywiaeth HT CSF gydag Awdurdodau Arfordir Cymru.  Presenoldeb yng nghyfarfodydd Fforwm

					<p>Mynediad Cenedlaethol Cymru (yn parhau)</p> <p>Presenoldeb mewn cyfarfod Partneriaeth Llwybr Clawdd Offa o ran y Bartneriaeth Llwybrau Cenedlaethol</p> <p>C3 Cyfarfod gyda CADW i drafod prosiectau posibl yn 2022. Cyfarfodydd etifeddiaeth Lefelau Byw'n cael eu cynnal.</p> <p>Ch4 Cyfarfod gyda Ramblers Cymru o ran gwirfoddoli a grantiau. Cyfarfodydd amrywiol gydag ALLau Gwent ar gyfer PGGG.</p>
<p>Darparu Adnoddau – Sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ariannu'r CCMCG drwy sicrhau adnoddau ychwanegol o ffynonellau mewnol ac allanol, sy'n helpu i gyflawni'r amcanion o fewn y cynllun hwn.</p>	FF5 25.0				<p>Adran 106, cyllid Lefelau Byw a grant llifogydd wedi'u dwyn ymlaen at eleni.</p> <p>Cariwyd arian cyfalaf ymlaen o 2020.</p> <p>Derbyniwyd Grant Gwella Mynediad, Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, Arfordir Cymru</p> <p>Cais Gwyrdd Gwent Newydd wedi'i gael am y ddwy flynedd nesaf</p> <p>Nodwyd cyllid CADW posibl ar gyfer gwella llwybrau yn 2022 yng Nghlydach a Llangwm.</p> <p>Canfod elfennau mynediad a £ gan grant Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent ac edrych ar etifeddiaeth bosibl.</p>
<p>Ceisio cynnal a gwella'r modd y cyflwynir y gwasanaeth mynediad i gefn gwlad drwy godi tâl am weithgaredd lle bo hynny'n dderbyniol</p>	FF5 25.3		Adolygiad parhaus.		<p>Ch1 Peiriannau talu wedi'u gosod ym mharc gwledig Rogiet</p> <p>Ch3 Adolygu taliadau o ran gorchmynion cyfreithiol</p>
<p>Adolygu polisïau gweithredol o bryd i'w gilydd mewn ymateb i newid deddfwriaethol.</p>	FF27.2				<p>Adolygiad parhaus o effeithiau Covid ar weithrediadau a deddfwriaeth sydd ar gael. Cadw golwg parhaus ar gynigion mynediad deddfwriaethol, Bil Amaethyddol newydd a deddfwriaeth berthnasol arall.</p> <p>Mynychu cyfarfodydd Swyddog Hawliau Tramwy Cymru/e-byst a chyfarfodydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru.</p>

Dangosydd	Gwirioneddol 2018/19	Gwirioneddol 2019/20	Gwirioneddol 2020/21	Targed	Ch1 2021/22 Gwirioneddol	Ch2 2021/22 Gwirioneddol	Ch3 2021/22 Gwirioneddol	Gwirioneddol 2021/221	Sylwadau
<b>C4</b>									
<b>Oriau Gwirfoddolwyr Mynediad Cefn Gwlad (gwirfoddolwyr uniongyrchol)</b>	3,089.5 +1326 wedi'i gofnodi fel yn anuniongyrchol (1)	3,294 Union-gyrchol 2265.5 Anuniongyrchol 1,028.5			81.5	650	559.5	815.5	Cyfanswm oriau anuniongyrchol yn 2021/22 oedd 819 awr a chyfanswm yr oriau gwirfoddol oedd 2106.5 awr. Mae hyn i fyny ar flwyddyn ddiwethaf ond yn dal yn llai na'r cyfnod cyn Covid.
<b>Grwpiau gwirfoddoli anuniongyrchol Mynediad Cefn Gwlad a gefnogwyd</b>	13	11	11		9	9	10	11	Mae grwpiau bellach yn ôl i'r lefelau cyn Covid a grwpiau gwirfoddol a chymunedol newydd ar y rhestr i ddechrau, ac yn aros am hyfforddiant ac ati pan benodir y swyddog Cysylltiadau Cymunedol newydd.
<b>Problemau gorfodaeth HT a datryswyd yn y flwyddyn</b>	1,648	1,750	1,797		1,804	1,810	1,827		Cynnydd bychan yn y broses o ddatrys problemau ond wedi'u negyddu gan ôl-groniad cynyddol yn y problemau a adroddwyd.
<b>Problemau gorfodaeth HT heb eu datrys</b>	1,265	1,339	1365		1,517	1,551	1,580		Ôl-groniad o broblemau wedi cynyddu.
<b>Canran o broblemau gorfodaeth HT wedi'u datrys (cronnus)</b>	55.17	56.18%	54.75%		54.32%	53.85%	53.62%		

Dangosydd	Gwirioneddol 2018/19	Gwirioneddol 2019/20	Gwirioneddol 2020/21	Targed	Ch1 2021/22 Gwirioneddol	Ch2 2021/22 Gwirioneddol	Ch3 2021/22 Gwirioneddol	Gwirioneddol 2021/221 C4	Sylwadau
Problemau cynnal a chadw HT a datryswyd yn y flwyddyn	6,594	6,971	7,160		7,178	7,303	7,393		Cynnydd bach mewn datrys problemau ond wedi'i negyddu gan y cynnydd parhaus yn y problemau a adroddwyd.
Problemau cynnal a chadw HT heb eu datrys	3,370	3,592	3,745		3,907	3,888	3,927		Mae niferoedd y problemau a adroddwyd yn parhau i godi gyda mwy o bobl yn cerdded.
Canran o broblemau cynnal a chadw HT wedi'u datrys (cronnus)	66.18	65.99%	65.66%		64.75%	65.26%	65.31%		Anodd newid y ffigwr yma heb adnoddau ychwanegol
Statws "Gwobr y Faner Werdd" wedi'i ddyfarnu/wedi'i gynnal	3	3	3	3		3			Asesiad blynyddol o safleoedd dethol trwy geisiadau blynyddol (3 ar hyn o bryd)